Mawrth 2026

# Hysbysiad o gynnig Ofwat i dderbyn ymrwymiadau Adran 19 gan Dŵr Cymru Cyfyngedig

Ofwat

# Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniad arfaethedig i dderbyn ymrwymiadau gorfodol gan Dŵr Cymru Cyfyngedig (**Dŵr Cymru**) o dan adran 19(1)(b) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 er mwyn sicrhau ei gydymffurfiad â Rheoliad 4 Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994, adran 94 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac Amod P12 ei Drwydded. Mae'r ymrwymiadau hefyd yn gwneud iawn am dorri'r rhwymedigaethau hyn.

Mae'r ddogfen yn crynhoi'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu ac yn nodi ein canfyddiadau arfaethedig mewn perthynas â'r materion sy'n cael eu hymchwilio, gan gynnwys pam ein bod yn credu bod Dŵr Cymru wedi torri ei ddyletswyddau statudol a rhwymedigaethau ei Drwydded.

Gwahoddir y rhai â diddordeb i roi sylwadau ar ein penderfyniad arfaethedig. Byddwn yn ystyried yr ymatebion a dderbynnir cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid derbyn ymrwymiadau gorfodol gan Dŵr Cymru.

# Crynodeb gweithredol

Mae'r hysbysiad hwn yn disgrifio methiannau Dŵr Cymru a sut y maent wedi digwydd. Mae'r methiannau'n ymwneud â rheolaeth, gweithrediad, cynnal a chadw a pherfformiad ei weithfeydd trin dŵr gwastraff (**GTDG**) a'r systemau casglu (hynny yw, ei rwydweithiau carthffosydd – y **rhwydwaith**) a ddefnyddir i'w cyflenwi. Mae'r rhain yn asedau hanfodol a ddefnyddir i lanhau a thrin carthion (neu ddŵr gwastraff) ac sy'n cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd, yn enwedig ar gyrff dŵr megis afonydd neu nentydd, y caiff dŵr gwastraff ei ryddhau iddynt.

Mae hyn yn dilyn ymchwiliad lle gwnaethom nifer o geisiadau manwl i Dŵr Cymru am wybodaeth a data. Yn ogystal, rydym wedi adolygu perfformiad amgylcheddol a data ar ollyngiadau a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd ac wedi ystyried gwybodaeth berthnasol a ddarparwyd i Ofwat gan randdeiliaid.

Ar ôl adolygu'r wybodaeth hon, rydym wedi nodi bod gan nifer sylweddol o GTDG Dŵr Cymru orlifoedd storm yn gysylltiedig â hwy sy'n gollwng yn rheolaidd i'r amgylchedd. Er enghraifft, gan ddefnyddio'r ffigurau gollwng a gofnodwyd gwelwn fod 82% wedi gollwng ar 20 achlysur neu fwy yn 2021 a bod 57% wedi gollwng ar fwy na 60 achlysur. Yn 2022, fe wnaeth 159 o'i orlifoedd storm GTDG (47%) ollwng mwy na 60 gwaith ac yn 2023 cynyddodd y ffigur hwn i 206 (64%) o orlifoedd storm GTDG yn gollwng dros 60 gwaith. Ar gyfer cyfran fawr o'r achosion o ollyngiadau uchel hyn o orlifoedd, mae Dŵr

Cymru wedi methu dangos bod y gollyngiadau hyn yn ganlyniad i amgylchiadau eithriadol, neu y byddai cymryd camau i atal neu leihau'r gollyngiadau hyn yn golygu costau sy'n anghymesur o uchel o'u cymharu â'r buddion amgylcheddol, fel sy'n ofynnol dan y Rheoliad Trin Dŵr Gwastraff Trefol[1] (RhTDGT). Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r cwmni wedi dangos chwaith sut y mae wedi cymhwyso'r prawf BTKNEEC[2] er mwyn asesu a fyddai camau pellach yn briodol ac yn gymesur.

Mae'r lefelau uchel hyn o ollyngiadau yn deillio o fethiant Dŵr Cymru i ddylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw ei GTDG yn briodol, sy'n cael ei adlewyrchu yn nifer y GTDG sydd fel petaent heb gydymffurfio â'u gofynion trwydded amgylcheddol mewn perthynas â llif i driniaeth lawn (259 GTDG), llif tywydd sych (141 GTDG) a chyfaint tanciau storm (61 GTDG). Gan ddefnyddio ffigurau gollyngiadau sydd wedi'u cofnodi, gwelsom fod 366 (22%) o orlifoedd storm y rhwydwaith wedi gollwng mwy na 60 gwaith yn 2021, gyda'r ffigur hwnnw'n codi i 474 (33%) erbyn 2023. Rydym o'r farn bod y problemau a nodwyd yn rhai systemig a'u bod wedi bod yn digwydd ers o leiaf 2017.

Mae'r wybodaeth hefyd yn dangos nad oedd gan Dŵr Cymru brosesau a rheolaethau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn gallu cynnal ei fusnes dŵr gwastraff yn iawn. Roedd yn brin o brosesau digonol i'w alluogi i fonitro ac asesu cydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol yn briodol, ac fe gymerodd ormod o amser i ymchwilio i'r materion posibl a nodwyd ac i'w datrys. Ni wnaeth Dŵr Cymru reoli ei risgiau cydymffurfio yn effeithiol, gan aros mewn llawer o achosion tan i'r tor-rheoliadau ddigwydd cyn cymryd camau i unioni'r sefyllfa, ac roedd goruchwyliaeth ei uwch-reolwyr a'r Bwrdd yn annigonol o ran cydymffurfiaeth y cwmni â'i rwymedigaethau amgylcheddol.

Rydym yn nodi bod y duedd o gynnydd yn nifer y safleoedd sydd o bosibl heb gydymffurfio o 2021 ymlaen yn cyd-fynd â gosod offer monitro llif a gollwng mwy cywir gan Dŵr Cymru. Er fod hyn yn berthnasol, nid yw'n esgusodi'r methiannau a welwyd drwy gydol yr ymchwiliad hwn.

Ym mis Rhagfyr 2025, gwnaethom rannu drafft cyfrinachol o'n penderfyniad arfaethedig gyda Dŵr Cymru fel rhan o'n proses 'minded-to' (y ddogfen **'minded-to'**), sydd, fel yr esboniwn yn ein [Datganiad o bolisi mewn perthynas â chosbau ariannol](), yn weithdrefn yr ydym wedi'i mabwysiadu yn ychwanegol at ofynion gweithdrefnol adran 22A WIA91. Rhoesom gyfle i Dŵr Cymru wneud sylwadau ar y ddogfen 'minded-to'. Mewn ymateb, rhoddodd Dŵr Cymru sylwadau ar rai o'n canfyddiadau arfaethedig, gan gynnwys rhywfaint o dystiolaeth newydd ynghylch y camau yr oedd wedi'u cymryd i fynd i'r afael â rhai o'r materion yr oeddem wedi'u nodi.

---

[1] Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994

[2] Rhaid i gwmnïau dŵr ddylunio, adeiladu a chynnal systemau carthffosiaeth yn unol â'r wybodaeth dechnegol orau sydd ar gael heb gost ormodol (a elwir hefyd yn brawf BTKNEEC).

Gan ystyried y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ddogfen 'minded-to' a'r dystiolaeth newydd a gyflwynwyd gan Dŵr Cymru, rydym o'r farn nad yw Dŵr Cymru wedi bodloni'r dyletswyddau a'r rhwymedigaethau canlynol:

- **Rheoliad 4(4) Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994 (RhTDGT)** – i sicrhau bod ei safleoedd trin dŵr gwastraff yn perfformio'n ddigonol o ran dyluniad, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw, fel mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol neu anrhagweladwy y mae gollyngiadau yn digwydd (gan ystyried amrywiadau tymhorol), yn amodol ar y wybodaeth dechnegol orau sydd ar gael heb achosi cost ormodol **(BTKNEEC).**

- **Rheoliad 4(2) ac Atodlen 2 RhTDGT** – i sicrhau bod ei systemau casglu (rhwydwaith) yn cael eu hadeiladu, eu gweithredu a'u cynnal a chadw yn unol â BTKNEEC.

- **Adran 94 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (WIA91)** – i ddarparu draeniad effeithiol ar gyfer ei ardaloedd lleol ac i ddelio'n effeithiol â chynnwys ei garthffosydd.

- **Amod P12 ei offeryn penodi (Trwydded)** – i sicrhau fel cwmni fod ganddo adnoddau a systemau cynllunio a rheolaeth fewnol digonol er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd i ni, achoswyd y methiannau hyn i gydymffurfio oherwydd i'r cwmni fethu â chyflawni'r canlynol:

- Methu â gweithredu a chynnal a chadw ei asedau'n ddigonol, ac i'w huwchraddio lle bo angen, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu perfformiad digonol yn unol â BTKNEEC.

- Methu â rhoi ar waith brosesau digonol er mwyn galluogi dealltwriaeth, cynllunio, adnoddau a systemau i fonitro a chynnal gallu gweithredol a pherfformiad fel mater o drefn, ac felly sicrhau perfformiad digonol yn unol â BTKNEEC yn ei GTDG ac ar ei rwydwaith carthffosydd.

- Methu â rhoi ar waith brosesau digonol er mwyn nodi a mynd i'r afael â risgiau a methiannau cydymffurfio sy'n dod i'r amlwg ac sy'n bodoli, yn effeithiol ac mewn pryd, ac i ymateb yn effeithiol i newidiadau dros amser yn y dalgylchoedd a wasanaethir gan ei GTDG a'i rwydwaith.

- Methu â rhoi ar waith brosesau a systemau digonol er mwyn sicrhau bod ei brosesau casglu, gwirio a dadansoddi data yn addas at y diben i allu gwneud asesiad rhesymol o gydymffurfiaeth ac ymateb i amrywiadau mewn ansawdd data ar draws ei sail asedau.

- Methu â sicrhau bod ei Weithrediaeth a'i Fwrdd wedi derbyn ac/neu wedi ceisio digon o wybodaeth a sicrwydd ynghylch perfformiad gweithredol asedau dŵr gwastraff y cwmni a'u cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol. Roedd y diffyg goruchwyliaeth ddigonol hwn yn golygu nad oedd rheolwyr y cwmni yn ymwybodol o fethiannau a risgiau cydymffurfio, nac yn eu trin mewn pryd.

Mae methiant Dŵr Cymru i weithredu a rheoli ei GTDG a'i rwydwaith yn briodol wedi golygu nad yw wedi lleihau'r effeithiau andwyol y gall gwaredu dŵr gwastraff eu cael ar yr amgylchedd. Mae'r methiant hwn wedi golygu bod dŵr gwastraff wedi gollwng heb gyfiawnhad o'i GTDG a'i rwydwaith – lle nad yw'r dŵr gwastraff wedi mynd drwy'r holl brosesau trin y dylai fod cyn cael ei ryddhau i'r amgylchedd. Mae gollyngiadau o'r math hyn yn effeithio ar yr amgylchedd ac yn gallu niweidio iechyd a bioamrywiaeth cyrff dŵr, gallu cwsmeriaid i ddefnyddio cyrff dŵr yn ddiogel at ddibenion hamdden, ac ymddiriedaeth cwsmeriaid a'r cyhoedd yn Dŵr Cymru, y sector dŵr ehangach a'i drefn reoleiddio.

Mae Dŵr Cymru eisoes wedi cymryd rhai camau i adfer cydymffurfiaeth yn ei GTDG, gan symud ymlaen â rhaglen fuddsoddi gwerth £73.7m i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth llif i driniaeth lawn a nodwyd. Yn ogystal â'r rhaglen cynlluniau llif i driniaeth lawn, buddsoddodd Dŵr Cymru £28m yn AMP7 ar ymyriadau i leihau gollyngiadau gorlifoedd storm o'i asedau, gan gynnwys dau gynllun sylweddol yng ngorlifoedd storm Pontyfelin a Threlewis, ac un arall yng ngorsaf bwmpio carthffosiaeth a GTDG Brynbuga.

Yn AMP8 mae hefyd yn buddsoddi £14.5m mewn ymchwiliadau, monitro a modelu, a fydd yn ei alluogi i wella'r gorlifoedd storm sydd â'r potensial mwyaf i effeithio ar yr amgylchedd. Mae'r cwmni hefyd wedi cryfhau ei brosesau a'i reolaethau mewnol ynghylch casglu a dadansoddi data llif a gollyngiadau er mwyn gallu deall ei sefyllfa gydymffurfio yn well. Ers agor ein hymchwiliad, mae Dŵr Cymru wedi cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd er mwyn sicrhau gwell goruchwyliaeth o'i gydymffurfiad â'i rwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol, gan gynnwys gwella'r ffordd y mae'n rheoli risgiau ac yn adrodd ar ei berfformiad i'w Weithrediaeth a'i Fwrdd.

Er gwaethaf y camau y mae Dŵr Cymru wedi'u cymryd ac wedi'u cynllunio, mae Ofwat o'r farn bod angen i'r cwmni gymryd camau pellach i'n sicrhau ni ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol ac y bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Rydym o'r farn bod y tor-rheoliadau a ddigwyddodd yn ddigon difrifol i warantu gosod dirwy ariannol, oni bai am yr ymrwymiadau a gynigir.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Dŵr Cymru wedi cydnabod ei fethiannau ac wedi cynnig ymrwymiadau o dan adran 19 WIA91 (**yr Ymrwymiadau**) a fydd yn golygu ei fod yn

cymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r tor-rheoliadau rydym wedi'u nodi a sicrhau cydymffurfiaeth yn y dyfodol. Bydd yr Ymrwymiadau hefyd yn golygu ei fod yn ymrwymo i fuddsoddi £44.726 miliwn ychwanegol er mwyn gwneud iawn. Bydd hyn yn cynnwys:

- £40.66 miliwn i'w dargedu at:
    - leihau gollyngiadau mewn safleoedd penodol gyda buddsoddiad ychwanegol wedi'i gynllunio mewn safleoedd yn ystod y cyfnod 2025-30 gyda'r ddau nod o fynd i'r afael â niwed ac o leihau nifer y gollyngiadau blynyddol i lai na 20 yn y safleoedd perthnasol; ac
    - ymchwilio i waith selio ar rannau preifat o'r rhwydwaith carthffosydd er mwyn mynd i'r afael â threiddiad dŵr daear, sy'n cyfrannu'n sylweddol at orlifoedd sy'n gollwng yn aml.
- £2.0 miliwn i ariannu lleihau rhwystrau i symudiad pysgod ac i wella cynefinoedd yn afonydd Cymru;
- £1.0 miliwn i ariannu creu a darparu adnoddau ar gyfer tasglu camgysylltiadau uniadau; ac
- £1.066m fel rhan o gronfa amgylchedd cymunedol (Cymuned Natur) y bydd Dŵr Cymru yn ei sefydlu i ddarparu grantiau i drydydd partïon ar ôl cais llwyddiannus ar gyfer prosiectau sydd â'r nod o warchod a/neu wella'r amgylchedd lleol, ansawdd dŵr, ansawdd dŵr ymdrochi neu fioamrywiaeth o fewn ardal weithredu Dŵr Cymru.

Bydd y gwneud iawn hwn yn cael ei ariannu'n llwyr gan y cwmni ac ni fydd costau'n cael eu rhannu â chwsmeriaid.

Yn amodol ar ymgynghoriad, rydym yn fodlon y byddai'n briodol yn yr achos hwn i dderbyn yr Ymrwymiadau gorfodadwy hyn yn lle rhoi gorchymyn gorfodi a chosb ariannol. Rydym yn fodlon bod, wrth weithredu'r Ymrwymiadau hyn, y bydd Dŵr Cymru yn cymryd pob cam sydd, ar hyn o bryd, yn ymddangos yn briodol i ni er mwyn dod yn ôl i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan Reoliad 4 UWWTR, adran 94 WIA91 ac Amod Trwydded P12. Rydym o'r farn y bydd y camau adfer, ynghyd â'r elfennau gwneud iawn yn yr Ymrwymiadau, yn arwain at ganlyniad gwell i gwsmeriaid a'r amgylchedd na chyhoeddi gorchymyn gorfodi a chosb ariannol. Mae gwerth gwneud iawn a sicrhawyd (£44.726 miliwn) yn uwch na'r gosb ariannol y gallem fel arall fod wedi'i rhoi ar y cwmni (£40.66 miliwn).
Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae canfyddiadau Ofwat yn yr hysbysiad hwn yn ymwneud yn unig â'r rhwymedigaethau y mae gan Ofwat awdurdodaeth drostynt. Nid

ydym yn ceisio gwneud canfyddiadau am fethiannau trwydded amgylcheddol nac ynghylch a oedd gweithredoedd Dŵr Cymru, neu ei weithwyr, yn droseddol eu natur.

**Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.**

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch I nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/ version/3.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gov.uk.

OGL